
Teithiau cerdded teuluol...

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Taith Gylchol y Parlwr Du, Sir y Fflint

## Taith gerdded addas i deuluoedd gyda chyfleoedd i weld adar – dewch â'ch binocwlars!

*"Taith gerdded addas i deuluoedd sy'n ardderchog i bramiau ysgafn ac sy'n rhywle lle gall y plant archwilio ac agosáu at natur."*

**GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Y maes parcio talu ac arddangos yng ngwaelod Ffordd yr Orsaf, ger tafarn y Lighthouse. Mae'r Parlwr Du yn codi am barcio yn y Dafarn. Ceir mwy o feysydd parcio Talu ac Arddangos ar ddiwedd ffordd Gamfa Wen y tu ôl i'r Ganolfan Gymunedol.

### Pellter:

3 milltir/4km.

### Ar hyd y ffordd...

Ar ddiwedd Ffordd yr Orsaf dringwch i ben yr arglawdd. Dilynwch y llwybr i'r dde sydd wedi ei arwyddo'n glir â marcwyr oren 'Llwybr Cylchol Y Parlwr Du'. Mae'r llwybr yn syth ac yn llydan a cheir cerrig mân ar yr arwyneb i ddechrau. Ceir paneli gwybodaeth, meinciau picnic a cherfluniau ar y llwybr.

Ar ôl 0.6 milltir mae'r cerrig mân yn gorffen ac mae'r llwybr tarmac yn dechrau ac yma ceir cyfleoedd i wylio adar yng nghuddfan adar RSPB, golygfeydd o'r aber a thirnodau diwydiannol.

Gadewch y pwll glo a mynd drwy'r rhwystr ffrâm A, gan ddilyn yr arwyddion oren a throi i'r dde a dilyn llwybr glaswellt gyferbyn â'r llinell reilffordd nes y byddwch yn gweld marcwyr eto ar y ffordd. Croeswch y gylchfan ac ewch heibio 'Canolfan Pentre Peryglon' lle ceir toiledau a chaffi. Mae'r llwybr yn ôl i'r maes parcio ar hyd Ffordd yr Orsaf.

### Angen gwybod:

Mae hyn yn ddelfrydol i deuluoedd a byddai hanner cyntaf y daith yn addas i bramiau ysgafn ac i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Ar ôl cyrraedd y llwybr glaswellt gallwch ddilyn yr un ffordd ag y daethoch yn ôl (dyma'r llwybr harddaf yn ôl).

Edrychwch ar wefan Travel Line Cymru i gael amserlenni bws yn ôl ac ymlaen o Ffordd yr Orsaf, Talacre.

Lawrlwythwch ap Teithiau Digidol Gogledd Ddwyrain Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y daith gerdded o'u gwefan: https://www.northeastwales.wales/things-events-holidays-break-ideas-within-corner-north-wales/visit-north-east-wales/north-east-wales-digital-trails/